PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 46 Tachwedd 16, 2023 50c.

## Bryngwenith, Henllan, Castellnewydd Emlyn, Ceredigion

O fis Mai 2023 hyd fis Mai 2024, y Cynghorydd Sir Maldwyn Lewis, diacon yn eglwys Bryngwenith yw Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion ac fel sy'n arferol ar hyd y blynyddoedd mae Oedfa'r Cadeirydd i'w chynnal yn y capel o'u dewis hwy. Capel Bryngwenith oedd lleoliad oedfa ddinesig Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystod haf 2023.

Roedd y capel yn orlawn. Cafwyd neges amserol gan gaplan y Cadeirydd sef y Parchedig Carys Ann sydd hefyd yn briod â Maldwyn. Cyflwynwyd englyn o waith y Prifardd Ceri Wyn Jones, wedi ei fframio i Maldwyn oddi wrth aelodau eglwys Bryngwenith:

### Y Cynghorydd Maldwyn Lewis

(Cadeirydd Cyngor Ceredigion)

Yn ei holl waith wrth y llyw, dros ei sir,
dros eraill, mor glodwiw,
un o blaid pobol ydyw,
un o blith ei bobol yw.

Cymerwyd rhan gan Brenda Jones, Morfydd Davies, Anne Lewis, John Adams, Elin Fflur Davies a Sara Mai Davies, gyda gwledd wedi ei baratoi yn y festri a thu allan dan ofal Elonwy James, a nifer o wragedd yr eglwys a'r ardal ehangach.

Yn y cyfarfod gwnaethpwyd casgliad at Apêl Uned Dydd Cemotherapi Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Y cyfanswm oedd £2,100.





# GWEDDI AR GYFER SUL DIOGELWCH

*Mae'n Sul Diogelu ar 19 Tachwedd. Dyma'r weddi a grëwyd yn arbennig ar gyfer y diwrnod hwn gan y Parchg Robin Samuel. Mae ffilm fer o'r weddi ar gael ar wefan Undeb yr Annibynwyr, mae croeso i chi ei lawrlwytho hi i'w defnyddio mewn oedfa.*

## GWEDDÏWN

Dduw cariad a chyfiawnder,
yr wyt wedi dweud,
'Diogel yw'r un
sy'n ymddiried yn yr Arglwydd.'

Ar Sul Diogelwch
down ynghyd
yn gynulleidfaoedd o'th bobl,
o bob rhan o Gymru,
i ymrwymo
i wneud dy eglwys yn fan
lle gall pawb deimlo'n saff.

Helpa ni i fod
yn gymunedau
agored,
croesawgar,
cynhwysol
a chariadus;
cymunedau
lle gall pobl fyw ynghyd
a ffynnu,
yn rhydd o bob ofn
a phob niwed.

Gyda chywilydd yr ydym yn cydnabod
nad felly y bu bob amser,
a chyflwynwn o'r newydd i ti
y rhai sydd a'u profiad
o'r eglwys yn boen ac yn loes.
Diolchwn am ddewrder y rhai

*parhad ar dudalen 2*



# GWEDDI AR GYFER SUL DIOGELWCH – parhad

a fu'n datgelu'r tywyllwch,
yn codi llais ac yn galw i gyfrif.
Maddau i ni,
a helpa dy eglwys
i weithio i newid er gwell
fel y gall fod yn gaer o heddwch a diogelwch
i bawb.

Heddiw, gydag un llais,
gofynnwn am nerth i fod yn eglwys fydd
yn barod bob amser,
i wrando ac i ddysgu,
i werthfawrogi a gofalu,
i garu ac i wasanaethu,
i warchod ac i fod yn lloches ddiogel.

Heria ni o'r newydd:
i amddiffyn y gwan a'r bregus,
i godi llais dros y rhai
na chlywir eu lleisiau,
i gerdded ffordd gwasanaeth Iesu,
ac i newynu a sychedu am gyfiawnder.

Dduw cariad a chyfiawnder
clyw ein gweddi.
Tosturia wrthym,
iachâ ni,
ysbrydola ni,
arwain ni,
yn enw'r un a addawodd
gadw'r praidd i gyd yn ddiogel,
Iesu'r Bugail Da

**Amen**

# Neges o Fadagascar

Er bod Colofn Ryngwladol *Y Tyst* wedi dod i ben rai misoedd yn ôl, mae rhai negeseuon yn dal i'n cyrraedd o amrywiol rannau o'r byd. Heddiw, 7 Tachwedd 2023, daeth neges o Fadagascar gan ein cyfaill Lala Rasendrahasina sydd bellach ar staff coleg diwinyddol yr FJKM (sef, *Fiangonan'i Jesoa Kristy eto Madagasikara* sef 'Eglwys Iesu Grist ym Madagascar').
Mae'n amlwg fod y dyddiau hyn yn rhai blin ar yr Ynys Fawr. Gallwn synhwyro'r pryder wrth ddarllen geiriau Lala. Ynghanol yr holl drybini sydd yn y byd ar hyn o bryd, cofiwn am Fadagascar, a gweddïwn drosti fel gwlad.

**Geraint Tudur**

# Neges Lala Rasendrahasina



A wnewch chi, os gwelwch yn dda, weddïo dros Fadagascar, ei phobl a'r Eglwys yma, wrth i ni ymgodymu â meddwl Duw, a cheisio'i ddeall?

Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa wleidyddol yma yn dirywio gan fod anghydweld dwfn ynglŷn â'r etholiad Arlywyddol sydd i'w gynnal y mis hwn. Mae gorymdeithiau mawr, ond heddychlon, wedi eu cynnal ymhob rhan o'r ynys dan arweiniad y deg ymgeisydd etholiadol, ac mae'r llywodraeth wedi ymateb iddynt gyda thrais yn erbyn y tyrfaoedd, a hynny'n arwain at lawer yn cael eu dolurio a'u gymryd i'r ddalfa.

Yr unig beth y mae'r bobl yn gofyn amdano yw etholiad tryloyw, teg a chywir fel y gall y canlyniad fod yn dderbyniol i bawb.

Mae ein dyfodol yn ansicr. Mae Cyngor Eglwysi Cristnogol Madagascar yn ceisio gweithredu fel canolwr rhwng y ddwy blaid (yr un sy'n cefnogi'r cyn-Arlywydd a ddaeth i rym trwy'r *coup d'état* yn 2009, a'r wrthblaid). Gwn fod eglwysi yn y Deyrnas Gyfunol sydd mewn partneriaeth â ni yma, ac yn arbennig felly chwi fel Annibynwyr Cymru. Gweddïwch drosom, os gwelwch yn dda.

Mae'r tensiwn yma'n fawr ond credwn fod y gair olaf gan Dduw, a'i fod ef yn goruwchlywodraethu.

Mae'r cyn-Arlywydd (y bu'n rhaid iddo roi heibio'r swydd er mwyn medru sefyll yn yr etholiad) yn dal i reoli'r llywodraeth ac mae'n cefnogi'r defnydd o drais yn erbyn y boblogaeth.

Mae democratiaeth a rhyddid mynegiant bellach wedi ei sathru dan draed.

# CYNNIG ARBENNIG I EGLWYSI

Annwyl gyfeillion,

Cyflwyniad cerddorol yw **Emynau Llafar Gwlad a Phregethau Rhyfeddol**. Canolbwynt y gwaith yw recordiadau o'r archif sain, gan ganolbwyntio'n bennaf ar Gasgliad y Werin, Sain Ffagan. Mae'r recordiadau hyn yn cynnwys atgofion o Ddiwygiad 1904-05, enghreifftiau o bregethwyr yn mynd i hwyl a phenillion o rai o emynau coll y werin.

Mae'r archif hwn wedi ei blethu gyda cherddoriaeth newydd ac mae cryn ddiddordeb yn y gwaith ar gyfer gwyliau yn yr haf. Ond cyn ei berfformio ar lwyfannau gyda band, hoffwn yn gyntaf ei rannu mewn capeli ac eglwysi i unrhyw rai sydd â diddordeb. Tybed oes gennych chi ddiddordeb?

Cefais flas ar rannu'r gwaith mewn cyflwyniadau fel hyn yng nghapel Amor, Llanfynydd a Hen Gapel, Pencader dros yr haf. Gallwch ddarllen am y digwyddiadau hynny ar fy nghyfryngau cymdeithasol os oes gennych ddiddordeb. Daeth yn amlwg o dipyn i beth mai dyma'r cam nesaf gyda'r gwaith hwn.

Rydw i yn y broses o hel arian i dalu'r costau fel bod modd imi gynnig y gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim i'r capeli a'r cyhoedd. Rwy'n agos at gyrraedd y nod diolch i haelioni Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymanfa Bedyddwyr Gogledd Ddwyrain Cymru.

Y bwriad yw rhannu'r gwaith mewn cymaint o gapeli a phosib. Bydd dwy neu dair taith i'r perwyl hwn yn 2024. Fy ngobaith yw y bydd yr emynau llafar gwlad o fudd i eraill fel maen nhw i minnau.

Hen leisiau, cerddoriaeth newydd a neges oesol.

Croeso i chi gysylltu am fwy o wybodaeth.

Yn gywir,

**Lleuwen Steffan**
lleuwensteffan@gmail.com

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 16 2023 RHIF 142

# Lansio 100.Cymru mewn noson o weddi

Nos Sadwrn, 21 Hydref, fe wnaeth dros 200 ohonom ymgynnull yn ddisgwylgar yn eglwys Hope Church Merthyr i weld beth oedd y fenter newydd hon oedd wedi bod yn ymddangos ar ein cyfryngau cymdeithasol dros yr wythnosau diwethaf.

Roedd elfen o gyffro wrth i bobl lifo drwy'r drysau, croeso cynnes, a phwyslais cryf fod hon am fod yn noson lle byddai siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn gallu cymryd rhan yn iaith eu calon, wrth i'r setiau cyfieithu gael eu rhannu. Noson weddi oedd wedi ei hysbysebu, ac roedd gen i ddiddordeb mewn gweld sut fyddai hyn yn gweithio, yn eiddgar i weddïo a hefyd i glywed am y cynllun newydd yma.

Ben Franks, un o'r tîm arwain, ddechreuodd drwy rannu ychydig am y weledigaeth a blannwyd yn ei galon gan Dduw, yn canoli ar y cwestiwn: 'Beth sydd angen ei wneud i blannu 100 eglwys iach dros y 10 mlynedd nesaf?' Geiriau Salm 44 oedd yn pwyso arno, 'Dyn ni wedi clywed, O Dduw, ac mae'n hynafiaid wedi dweud wrthon ni beth wnes ti yn eu dyddiau nhw, ers talwm' (Salm 44:1). Dyna ein profiad ni fel Cymry – clywed am symudiad nerthol Ysbryd Duw yn y gorffennol. Dyheu am dywalltiad arall o'i Ysbryd.

Yn dilyn, crëwyd gofod i fyfyrio, i edifarhau, i ddod gerbron Duw a gofyn iddo ein harchwilio. Dyma nodweddai'r noson i mi: ymagwedd o alw ar Dduw i gamu i mewn, i arwain, i bryfocio, i ddangos i ni ble sydd angen edifarhau a ble mae angen symud ymlaen. Wrth symud yn ein blaenau drwy'r salm, cefais yr argraff fod ymagwedd o ostyngeiddrwydd gan y tîm. Pwysleisiwyd ar i ni gofio mai Duw, nid Cant i Gymru, fydd yn peri i'r gwaith lwyddo: 'dy nerth di, dy allu di, dy ffafr di wnaeth y cwbl' (Salm 44:3), a'r cynnig agored y gallai Cant i Gymru fod yn fodd o gefnogi'r rhai oedd yn teimlo Duw yn galw ar iddyn nhw gyflwyno'u bywydau mewn gwasanaeth iddo.




Ben Franks yn cyflwyno'r noson




Gwilym ac Alice Jeffs yn rhannu am Angor Grangetown

Yn yr ysbryd hwnnw, clywsom gan unigolion a theuluoedd o amryw o ardaloedd ar draws Cymru, yn rhannu am y ffordd yr oedd Duw yn symud yno. Cawsom ein calonogi yn fawr gan hanesion am waith newydd yn cael ei blannu, a bywydau'n cael eu trawsnewid wrth i Dduw fod ar waith mewn cymunedau amrywiol. Roedd yn fendigedig cael gweddïo mewn grwpiau a chlywed rhai oedd yn ddieithr i mi cyn y noson honno'n agor eu calonnau'n gweddïo a deisyfu ar Dduw dros gymunedau'r wlad hon.

Rwyf wedi fy annog a'm hysbrydoli wrth gael fy atgoffa fod Duw ar waith yng Nghymru heddiw. Mae egni a chyffro tîm Cant i Gymru wedi fy nghalonogi wrth fynd i mewn i dymor yr Adfent, ein bod yn aros yn y Duw sydd yn symud heddiw ac wedi camu mewn i'r byd ym mherson Iesu, gobaith i'n gwlad ni ac i'r cenhedloedd i gyd.

Digwyddiadau nesaf: Diwrnod i arweinwyr ar faes y Sioe, Llanfair-ym-Muallt rhwng 10 a 2 ar 1 Rhagfyr. Yna, diwrnod o weddi gyda noson o fawl a gweddi i ddilyn ym Mlaenau Ffestiniog ar 2 Chwefror 2024. Ewch draw i www.100.cymru i gael mwy o wybodaeth ac i gefnogi.

*Catrin Hampton*
*Yr Wyddgrug*



# Cyfarfod Myfyrwyr Blwyddyn Gap Coleg y Bala

Bob blwyddyn, o fis Medi ymlaen, fe fydd yna ffarwelio a chroesawu yn digwydd yng Nghanolfan Plant ac Ieuenctid Coleg y Bala. Bydd y rhai a fu ar y cynllun hyfforddiant Blwyddyn Gap yn symud yn eu blaen i'r cam nesaf ar eu taith, a bydd rhai newydd yn cael eu croesawu at y tîm sydd yno. Mae'r Flwyddyn Gap yn gyfle cyffrous i ddatblygu doniau a rhoi ffydd ar waith, a thyfu ynddi wrth wasanaethu a dysgu a byw efo eraill.

Oes rhywun rydych chi'n ei adnabod a hoffai fanteisio ar y profiad hwn? Neu oes gen ti awydd bod yno dy hun? Gellir gwneud ceisiadau eleni am y flwyddyn gyfan neu am ychydig fisoedd, yn ddibynnol ar sefyllfa'r unigolyn. Mynnwch sgwrs efo Siân yn y Bala (manylion o ddilyn y ddolen uchod).

Diolch i Alice, Iwan a Dylan, y rhai sydd wedi dechrau yno eleni, am rannu ychydig am eu taith hyd yma a'u gobeithion efo ni.



### Alice Grace Evans

Fy enw i yw Alice a dwi'n dod o ardal fach o'r enw Llandysul, yng Ngheredigion. Dwi wedi byw hefo Mam, Dad, fy chwaer a *loads* o anifeiliaid ers erioed.

Felly, pam gwneud blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala? Dwi wedi byw yn yr un ardal drwy gydol fy mywyd, ac roedd isie 'bach o newid arna i. Ar ôl gorffen lefel A, symudais ymlaen i goleg i astudio Diploma Lefel 3 mewn Celf (blwyddyn sylfaen). Dyna lle wnes i sylweddoli mai hobi fydd celf i fi, dim gyrfa. Felly … meddyliais am wneud blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala. Dwi wedi bod yn mynychu cyrsiau yn y coleg ers pan oeddwn yn 15 oed, felly mae'r Coleg yn teimlo fel ail gartref i mi.

Fy ngobaith yw y bydd y flwyddyn yma'n rhoi sgiliau newydd i mi. Dwi eisiau dod yn fwy hyderus a datblygu fy sgiliau cyfathrebu hefo pobl wahanol ac oedrannau gwahanol. Rydw i hefyd eisiau gwella fy sgiliau byw gan mai dyma'r tro cyntaf i mi fyw'n annibynnol.

Beth dwi eisiau i'r ieuenctid y byddaf yn gweithio gyda nhw dros y flwyddyn yw y byddan nhw'n teimlo yr un mor ddiogel a chartrefol yma ag rydw i wedi bod. Nid dim ond i wneud gwaith ydw i yma, ond i adeiladu perthynas hefo'r ieuenctid, bod yn ffrindiau iddyn nhw, a cherdded gyda nhw wrth iddynt gerdded gydag Iesu a dysgu'r efengyl iddyn nhw.

Yn ychwanegol at hyn i gyd, dwi wir eisiau i'r flwyddyn yma fy helpu ar fy nhaith ysbrydol. Dwi'n obeithiol y bydd y flwyddyn yma'n cryfhau fy mherthynas hefo Duw ac y bydd yn brofiad hollol wych. Dwi'n gweddïo y byddaf yn profi bywydau fydd yn newid yn gyfan gwbl ac y bydd fy mherthynas i a'r Arglwydd yn dyfnhau hefyd. Byddwn yn rili gwerthfawrogi eich gweddïau chi i ni i gyd yn ystod y flwyddyn yma (fi, y 'gappers' eraill, y plant a'r ieuenctid, y coleg, a staff y coleg)! Diolch yn fawr.



### Dylan Alex Jones

Fy enw yw Dylan, dwi'n 18 oed ac yn dod o bentre yn ymyl Caernarfon o'r enw Waunfawr. Dwi'n hoff iawn o rygbi a seiclo. Mi es i i ysgol Syr Hugh Owen ac wedi hynny i goleg Llangefni i 'Weldio'.

Mi ddes i adnabod Iesu Grist trwy fynd i wasanaethau 'Caru Caersalem' ar nosweithiau Sul yng Nghaernarfon gyda fy ffrindiau. Ro'n i wedi bod yn mynd i'r clwb ieuenctid yng Nghaersalem ers ambell flwyddyn ac i'r cyrsiau yng Ngholeg y Bala yn barod. Ar y nosweithiau Sul yma dyma Gwenno Hughes a Lowri Jones yn dechrau darllen y Beibl gyda mi ac mi wnes i ddisgyn mewn cariad gyda Gair Duw. Ers hynny dwi wedi bod yn dysgu mwy a mwy trwy ddarllen fy Meibl. Cefais hefyd brofiad ysbrydol yn Souled Out yng Ngholeg y Bala pan wnaeth Lydia Power weddïo gyda mi a fy ffrind. Teimlais gariad Duw yn llifo trwydda i a'i gynhesrwydd fel blanced amdanaf.

Dewisais ddod i wneud blwyddyn gap yn y Coleg gan fy mod eisiau tyfu yn fy ffydd a dod i adnabod Iesu yn well. Dwi hefyd eisiau datblygu fy hyder a gwneud pethau allan o fy *comfort zone*, pethau fydd yn fy herio i! Dwi hefyd eisiau ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddod i nabod Iesu. Petaswn i 'mond yn gallu gwneud hynny ym mywyd un plentyn / person ifanc, fe fuaswn i'n hapus iawn.

Fe fuaswn i wir yn gwerthfawrogi eich gweddïau drosta i a dros fy amser yma yng Ngholeg y Bala. Diolch yn fawr.



### Iwan Evans

Fy enw yw Iwan a dwi'n dod o bentref Llandysul yng Ngheredigion. Dwi'n 18 oed a newydd orffen gwneud fy lefel A. Dwi wrth fy modd gyda trenau a phob math o bethau '*techy*'.

Pam gwneud blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala? Cefais fy magu mewn teulu Cristnogol ond, a bod yn onest, pan oedwn i'n iau, doedd ffydd ddim wir yn gwneud llawer o synnwyr i mi. Dyna pryd 'nes i gychwyn dod i'r Cwrs Ieuenctid yng Ngholeg y Bala. Roedd y sgyrsiau yn fwy *relatable* i fy mywyd a dyna pryd dechreuodd fy ffydd i dyfu.


Gan fy mod wedi gweld yr effaith mae Coleg y Bala yn ei gael ar dwf ffydd plant a phobl ifanc, roeddwn eisiau bod yn rhan o'r gwaith. Dwi'n teimlo fod gennyf gyfraniad i'w wneud i alluogi'r gwaith yma i ddigwydd.

Fy ngobaith am y flwyddyn sydd i ddod yw y bydd fy ffydd yn cryfhau ac y byddaf yn dod i adnabod Iesu'n well. Dwi hefyd eisiau helpu plant a phobl ifanc Cymru i ddod i adnabod Iesu.

Buaswn i'n gwerthfawrogi'n fawr petasai modd i chi weddïo drosta i a dros y gwaith yma yn y Coleg. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at bopeth sydd gan Dduw ar fy nghyfer dros y flwyddyn i ddod.

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd




**Pennod 8**
**‘Y Gair ar waith’ – Yr economi**
**Mathew 20: 1–16 | 19 Tachwedd**

### Gweddi

Dduw pob trugaredd, gofynnwn am dy fendith heddiw wrth i ni ystyried ein hamgylchiadau byw yng nghyd-destun yr economi a chyflogaeth fyd-eang. Maddau i ni ein plwyfoldeb cyfyng heb feddwl am ganlyniad ein deisyfiadau hunanol. Amen.

### Darlleniad: Mathew 20:1–16

### Cyflwyniad

Prin yw’r cyfeiriadau Beiblaidd at fasnach a diwydiant, a pha ryfedd? Mae’r cyfnod hanesyddol yn y Beibl yn ymestyn dros bymtheng mil o flynyddoedd rhwng Moses a diwedd y ganrif gyntaf. Maent hefyd yn gyfyngedig i fyd a bywyd mewn gwledydd penodol yn y Dwyrain Canol lle roedd y prif ddiwydiant yn ddibynnol ar amaeth a physgota. Eto, ceir ambell gyfeiriad at fân ddiwydiannau yn rhai o drefi Asia Leiaf lle roedd trin metelau’n digwydd ac roedd Joseff yn saer coed, onid oedd. Cyfeiriodd Jeremeia at dŷ’r crochenydd ac roedd yr Eifftwyr wedi datblygu’r modd i wneud blociau adeiladu allan o glai a gwellt. Bydd haneswyr yn medru olrhain datblygiad dawn y crefftwyr ar hyd y canrifoedd, a bydd adeiladu’r pyramidiau yn yr Aifft yn rhoi cefndir dramatig i greadigrwydd dyn.

Erbyn heddiw, yn ein hoes dechnolegol ddigidol ni, mae’n amhosibl meddwl am fywyd heb yr adnoddau sydd o’n cwmpas. Defnyddir olew i greu ystod eang o adnoddau, ac mae trydan ar gael ar gyffyrddiad botwm. Bydd addysg a gofal meddygol yn adnoddau hawdd cael mynediad atynt mewn gwledydd cyfoethog, ond beth am ystyried cymdogaethau lle mae tlodi neu ddiffyg hawliau dynol yn amlwg. Eto, mewn nifer o wledydd, mae’r darluniau a ddaw atom yn amhosibl i’w deall na’u derbyn. Mae’r darlun byd-eang yn ormod o gynfas i lawer ei ddychmygu, a hynny’n sicr yng nghyd-destun masnach a thlodi. Bydd trigolion Cymru a gweddill Ewrop yn gweld bod cwmnïau wedi cau ac wedi ailosod eu ffatrïoedd yn y Dwyrain Pell. Hawdd deall pam mae’r cwmnïau hyn yn symud i ardaloedd lle gellir cyflogi gweithwyr am chwarter y gost. Bydd diweithdra yn dilyn, ac mae rhai ardaloedd o Brydain yn gorfod ymdopi â chynnydd yn nifer y rhai sydd heb waith.

Sut gall y mwyafrif ohonom ddeall goblygiadau’r economi fyd-eang a’r polisïau gwleidyddol sy’n cael eu hyrwyddo gan yr asgell dde wleidyddol, fel y gwelwyd mewn sawl gwlad ers 2021, yn ceisio amddiffyn eu cyflogaeth a’u diwydiannau eu hunain heb boeni am y darlun lletach?

### Myfyrdod

Ar un wedd, mae Ghana yn wlad a fu’n gymharol gyfoethog yng nghyd-destun economïau gwledydd eraill ar gyfandir yr Affrig. Yno, roedd ffermwr tomatos o’r enw Kofi Eliasa yn gwneud bywoliaeth deg. Ond erbyn dechrau’r degawd hwn, prin roedd yn crafu incwm drwy dorri cerrig mewn chwarel. Mae’n ennill llai na doler y dydd. Gorlifwyd ei wlad gan gynnyrch rhad o Ewrop fel nad oedd yn medru gwerthu ei domatos. Roedd yn rhaid i Ghana dderbyn bod cynnyrch rhad yn dod i mewn i’r wlad fel rhan o’r fargen am fenthyciadau o’r IMF a Banc y Byd. Byddai Kofi Eliasa yn cydymdeimlo â’r asgell dde wleidyddol sydd am amddiffyn polisïau economaidd y gwledydd sy’n gogwyddo tuag at bolisïau hunan-les, heb weld y darlun byd-eang.

Byddwn yn deall ac yn gwerthfawrogi fel y bydd Cymorth Cristnogol ar flaen y gad yn wyneb trychinebau neu argyfyngau megis rhyfel a chorwyntoedd. Gwaith anoddach a llai amlwg yw lobïo llywodraethau sy’n hyrwyddo polisïau gwleidyddol a fydd yn achosi corwyntoedd economaidd ar draws y byd. Amcan polisïau economaidd yw creu’r amgylchiadau i wella incwm lleol a chreu cyfoeth. Rhan o ethos Cymorth Cristnogol yw dangos bod cynyddu cyfoeth rhai yn achosi tlodi enbyd i eraill. Mae masnach fyd-eang yn werth $10 miliwn y funud, ond dim ond 0.4% o hyn y mae gwledydd tlawd yn ei gael, sy’n ganran lai na hanner beth roeddent yn ei dderbyn yn 1980. Dywedir bod pob buwch yn Ewrop yn cael nawdd o $800 y flwyddyn tra mae cyfartaledd cyflog yn Ethiopia yn $100 y flwyddyn. Faint o economegwyr gwledydd yr G20 fydd yn poeni am Kofi Eliasa yn torri cerrig a mudiad eithafol gwleidyddol /grefyddol yn galw arno ef a’i debyg i godi arfau? Pa ryfedd fod y tlodion mewn gwledydd tlawd, fel Palestiniaid Gaza, yn barod i ddilyn terfysgwyr fel Hamas?

### Gweddi

Trugarha wrthym, Arglwydd, yn ein musgrellni ysbrydol. Weithiau, byddwn yn cuddio mewn crefydd gyfforddus heb weld y darlun llawnach o gysylltu ein cyfoeth ni â chyd-destun tlodi eraill. Gwyddom dy fod yn ymwybodol o ing y cymunedau tlawd yn Ghana a mannau eraill ac yn estyn cymorth i Kofi Eliasa a’i debyg. Boed i wleidyddion byd weld y darlun lletach a pheidio cynnal y dadleuon hunanol. Amen.

### Cwestiynau i’w hystyried

1. Ai dameg yn trafod y farchnad gyflogaeth yw’r ddameg am y gweithwyr yn y winllan, neu ddameg yn sôn am natur a pherson Duw?
2. A yw ariangarwch yn elyniaethus i’n bywyd Cristnogol, neu a yw’n iach bod yr eglwys yn hyrwyddo tegwch ym maes cyflogaeth?
3. Yn nhymor diolchgarwch, am beth fydd y tlawd a’r sawl sydd heb waith yn diolch amdano?
4. Pan gyhoeddir Datganiad yr Hydref ar 22 Tachwedd 2023, ai da, ai drwg yw clywed y wasg yn holi sut bydd y drefn newydd yn effeithio ar yr unigolyn, neu a fyddai’n well trafod pa bolisïau economaidd fyddai’n llesol i’r cymdogaethau i gyd?
5. A yw eglwys gyfoethog yn ariannol yn eglwys dlawd yn ysbrydol?

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 19 Tachwedd**
Mae Lisa Gwilym yn cael cwmni Gareth Glyn a Trystan Lewis i ddathlu 60 mlwyddiant Cymanfa Fawr 1963, pan ddaeth 5,000 o leisiau ynghyd yn Neuadd Albert, Llundain, i greu record hir chwedlonol – *A Nation Sings*. Daw’r emynau o Gapel Rehoboth, Prestatyn.

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 19 Tachwedd, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Emlyn Davies

**Sul, 19 Tachwedd, am 12yp**
Oedfa dan arweiniad Glenys Jones, Pwllheli

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# CYNGOR YR UNDEB A'I ADRANNAU

Yn ystod mis Hydref cyfarfu adrannau unigol Cyngor Undeb yr Annibynwyr yn rhithiol wythnos cyn cynnal cyfarfod llawn o'r Cyngor yn Aberystwyth i drafod agendâu'r adrannau yn helaethach fel Cyngor cyflawn.

Dyma grynodeb o gofnodion o'r **Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth**, a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 12 Hydref o dan gadeiryddiaeth Owain Llŷr Evans.

1. **Materion hyfforddi:** Cafwyd adroddiad manwl gan Carwyn Siddall yn rhinwedd ei swydd fel Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaeth. Adroddodd bod cryn ddatblygiad wedi bod a nododd bod yna dair prif haen i'r hyfforddiant (gweler *Dyma'r Undeb*, Hydref 2023).

2. **Panel Diogelu Cydenwadol:** Cafwyd Adroddiad gan Emlyn Davies (cadeirydd y panel). Adroddodd bod Sul, 19 Tachwedd wedi'i benodi fel Sul Diogelu yng Nghymru ac anogodd yr eglwysi i gynnal oedfa gyda'r pwyslais ar ddiogelu, a'i chynnal ar Sul gwahanol i'r dyddiad dynodedig os oedd hwnnw yn peri anhawster. Adroddodd bod adnoddau i'w cael ar wefan y Panel Diogelu Cydenwadol sy'n cynnwys gwasanaeth, fideo a gweddi. Atgoffodd hefyd y dylai pob eglwys fod â Swyddog Diogelu a'r enw wedi'i nodi o fewn y capel a/neu yng nghyhoeddiadau'r eglwys.

3. **Eglwysi ôl-Covid – patrymau gweinidogaeth:** Eglurodd y Cadeirydd mai pwrpas hyn oedd rhannu arferion da a gofidiau. Cafwyd sawl sylw.
   - Roedd dwy eglwys gyda pheth newid yng ngwaith eu gweinidog:
   - Yng ngofalaeth fro Llanuwchllyn a'r Cylch, roedd Carwyn Siddall erbyn hyn yn rhannu ei amser gweithio rhwng yr ofalaeth a'r Undeb. Adroddwyd bod y cynllun yn gweithio'n iawn ac yn hwylus ond ei bod yn bwysig nad yw Carwyn yn cael ei orlethu gan y gwaith. Mae dyletswydd ar yr ofalaeth i beidio â disgwyl ei fod yn parhau gyda'r holl waith a wnâi cyn ei swydd newydd.
   - Cafwyd adroddiad gan Arfon Jones a nododd bod eu gweinidog yn Ebeneser, Caerdydd sef Alun Tudur wedi cael cyfnod sabothol o dri mis. Roedd y diaconiaid yn cymryd mwy o faich nag oeddent cynt ond wedi dweud hynny, bu'r mis diwethaf yn drwm o safbwynt angladdau ar Alun. Nododd mai un datblygiad diddorol oedd canolbwyntio ar grwpiau llai ac roedd un grŵp wedi'i leoli yn Grangetown ac yn llwyddiannus iawn o dan yr enw 'Angor'.

Cwyn gyffredin yw'r un a fynegwyd gan Gwyn Elfyn, sef bod y gynulleidfa yn tueddu i fod yn llai ers y Covid ac nad yw'r plant wedi dychwelyd. Ond roedd ochr bositif hefyd sef bod cysylltu yn digwydd dros y we trwy bregethau ar YouTube.

Roedd Dafydd Roberts yn adrodd bod pobl wedi dychwelyd fel cynt i raddau yn Nhrefor. Does ganddyn nhw yr un gweinidog ond maent yn sicrhau bod yna bregeth neu wasanaeth yn cael ei gynnal yno'n rheolaidd. Roedd yntau'n gofidio bod yr ysgol Sul yn gwanio a hynny oherwydd diffyg athrawon i gymryd y dosbarthiadau. Un o bryderon Dafydd yw bod tuedd gan rai eglwysi i gynnal gwasanaeth, nid bob Sul ond bob pythefnos ac ofnai i'r pythefnos fynd yn fis neu ddau neu dri.

Roedd Iwan Llewelyn yn dweud bod ganddo eglwysi trefol a rhai gwledig a'u bod yn wahanol i'w gilydd o reidrwydd. Credai fod rhai eglwysi yn rhoi gormod o bwys ar eu hadeiladau a bod hynny yn gallu mynd yn ormod o faich ariannol arnynt.

Cafwyd adroddiad diddorol gan Emlyn Davies a Geraint Rees o eglwys y Tabernacl, Efailisaf. Adroddodd Emlyn am yr ardd gymuned a ddatblygwyd ar lain o dir diffaith. Fe greodd hyn ysbryd cymunedol arbennig. Roedd ar un adeg yn poeni a fyddai'r gefnogaeth ariannol i'r eglwys yn dirywio, ond profodd ei ofnau i fod yn ddi-sail oherwydd bod y cyfraniadau ariannol wedi codi ac roeddent erbyn hyn yn rhedeg dau fanc bwyd a hynny mewn ardal ddifreintiedig iawn. Talodd deyrnged i un o selogion yr eglwys sef John Llewelyn Thomas a ddatblygodd yr eglwys i fod yn ganolfan lle cedwir ac y dosberthir celfi ail-law ar gyfer y cartref i'r rhai sy'n ddigartref neu ar fin symud i gartref newydd. Ategodd Geraint sylwadau Emlyn trwy ddweud bod trais yn y cartref wedi cynyddu yn yr ardal ond bod galeri'r capel yn llawn o gelfi sy'n cael eu dosbarthu'n rheolaidd i'r rhai sydd ei angen. Un her a welai oedd bod chwaraeon merched wedi cynyddu a bod y chwaraeon hynny'n aml iawn yn cael eu cynnal ar y Sul yn ogystal â chwaraeon plant. Roedd angen ystyried yn ddwys sut i wynebu'r her honno.

Diolchodd y Cadeirydd am y sylwadau a gafwyd gan ddweud ei bod yn bwysig ein bod yn rhannu ein pryderon ond yn bwysicach fyth hwyrach, ein bod yn rhannu ac yn cyhoeddi'n llwyddiannau.

4. **Penderfyniad y Cyfarfod Blynyddol ar genhadaeth:** Tynnodd y Cadeirydd sylw'r adran at y cynigiad ac at awgrym Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb i'r hyn y gallai'r Adran hon ei drafod, sef 'codi to newydd o arweinyddion a hybu gweinidogaethau amrywiol.' Fel un a eiliodd y cynnig yn y Cyfarfod Blynyddol rhoddodd Iwan rai sylwadau. Nododd bod yr enwadau i gyd erbyn hyn yn tueddu i drafod a rhoi sylw i bopeth *ond* cenhadaeth a bod angen 'adfer enw Iesu Grist' yn ein hardaloedd. Atgoffodd ni o ymgyrchoedd y gorffennol yn 70au ac 80au'r ganrif ddiwethaf – ymgyrchoedd megis 'Gair i Feirion'.

   Roedd aelodau'r adran yn credu bod y drafodaeth dan 6 uchod yn plethu i mewn i drafodaeth y penderfyniad dan sylw.

   Roedd prinder plant a phobl ifanc yn ein heglwysi ac yn benodol yn ein hoedfaon yn un o'r heriau sydd raid inni ei hwynebu. Un ffordd yw'r gwaith da a wneir gydag 'Agor y Llyfr.' Un arall oedd deall bod yr hen Gideoniaid wedi ail-frandio fel 'Newyddion Da i Bawb' a bod llyfryn deniadol yn cael ei gynhyrchu ganddynt ac y gellid rhannu'r llyfrynnau hyn i blant.

   Yr alwad gyntaf yn y penderfyniad yn y cyfarfodydd blynyddol yw'r alwad i weithredu ar fyrder trwy weddïo'n daer. Nodwyd bod pobl yn gyffredinol erbyn hyn yn swil o weddïo yn arbennig yn gyhoeddus.

   Yr angen i eglwysi i gydweithio yn ein hardaloedd. Nodwyd bod syniadau gwahanol e.e. 'Angor' yng Nghaerdydd yn gallu ailgynnau tân ar aelwyd a aeth i fudlosgi.

   Mae prinder gweinidogion yn barod, a bydd y prinder yn gwaethygu yn y dyfodol yn ôl pob golwg. Byddai cynlluniau hyfforddiant a rannwyd gan Carwyn yn gallu cyfrannu'n sylweddol i ddiwallu anghenion ein heglwysi a chodi hyder yr aelodau ond iddo gael ei farchnata'n ofalus.



# Barn Annibynnol

## Her y tân gwyllt!

Rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn ar ddydd agor blwyddyn seneddol newydd yn San Steffan, rhwng Dydd Guto Ffowc a Sul y Cofio, rhwng 'mwynhad' (a pherygl) tân gwyllt a'r cof am boen a dinistr rhyfeloedd y canrifoedd. Fe fyddwn yn cofio, wrth gwrs, mai milwr profiadol iawn a thra amheus oedd Guto (neu Guy Fawkes) oedd yn un o'r criw o derfysgwyr 'Pabyddol'. Buont yn casglu bareli o ffrwydron mewn twnnel roeddynt wedi bod yn ei dwrio o dan Dŷ'r Arglwyddi yn Llundain am fisoedd, yn barod i chwythu'r cyfan i fyny ar ddydd agor blwyddyn Seneddol newydd ar 6 Tachwedd 1606 pan fyddai'r aelodau seneddol, yr arglwyddi a'r brenin Jâms I yn bresennol yno.

### Protest

Protest fyddai'r ffrwydrad enfawr yn erbyn Protestaniaeth y llywodraeth a'i rhagfarn yn erbyn Pabyddiaeth Gatholig Guto Ffowc a'i gyd-derfysgwyr. Yr amcan oedd ailsefydlu brenhiniaeth Gatholig yn y Deyrnas. Cafodd y cynllwyn ei ddarganfod mewn pryd, diolch i'r drefn, a chosbwyd y terfysgwyr, gan gynnwys Guto Ffowc, drwy eu dienyddio (gweithred dreisiol arall). A dyma ni (er mawr gonsyrn i'n ci ni, sy'n cael braw a dychryn bob blwyddyn ar adeg tân gwyllt ac yn ceisio mynd i guddio tu ôl i'r soffa!) yn parhau'r traddodiad o losgi Guto – Guto-gwneud, wrth gwrs, nid unrhyw Guto go-iawn – ar goelcerth enfawr mewn rhyw fan cyhoeddus yn ein trefi a'n pentrefi.

Mae hyn i gyd yn hwyl, wrth gwrs, os ydych yn hoffi tân gwyllt. Ac nid wyf am daflu dŵr oer ar unrhyw ddathliadau. Ond ... A ddylem ni fod yn dathlu digwyddiad oedd yn tanlinellu'r rhaniad dwfn rhwng Protestaniaid a Phabyddion dechrau'r ail ganrif ar bymtheg (o gofio fod gan y naill fel y llall ferthyron i'r ffurf ar y ffydd Gristnogol a goleddwyd ganddynt) a buddugoliaeth llywodraeth Jâms I dros Guto a'i gyd-derfysgwyr? Ni allwn byth gyfiawnhau beth oeddent wedi ei gynllunio dros y misoedd cynt. Ni ellir byth gyfiawnhau terfysg sy'n lladd naill ai un person neu gannoedd neu filoedd. Mae terfysg i'w gondemnio'n llwyr bob amser ym mhob amgylchiad, heddiw ym Mhalesteina/Israel ac Wcráin yn ogystal ag yn Llundain bedair canrif yn ôl. Nid oes dim cyfaddawdu ar hyn i ni fel Cristnogion.

### Gelyniaeth

Ond mae hyn oll yn codi cwestiwn i ni: beth wnawn ni o'r elyniaeth enbyd rhwng Protestaniaid a Chatholigion cyfnod Guto Ffowc a sut mae ymagweddu at hyn oll heddiw? Mae'r byd – a'n cymdeithas a'n heglwysi ni, diolch i Dduw – wedi newid llawer dros y pedair canrif, wrth gwrs. Gwelir cryn dipyn mwy o gydweithio a chyd-ddeall a chyd-weddïo rhyngom a'n gilydd nag a fu. Ond i ba raddau mae'r hen ragfarn yn parhau ac oes tuedd i'r rhagfarn droi'n elyniaeth yn ein plith, o bryd i'w gilydd? Un o gyfraniadau mawr y mudiad ecwmenaidd, y mae Cytûn yn fynegiant Cymreig cyfoes ohono, yw nad ydym bellach yn gweld ein gilydd fel 'gelynion a dieithriaid ond yn gyd-ddinasyddion â'r saint a chyd-aelodau o deulu Duw.'

### Gweld y ddwy ochr

A gellir ymestyn yr agwedd Gristnogol hon at ryfel hefyd, wrth gwrs. Bu i lawer ohonom edmygu safiad y diweddar Archesgob Robert Runcie ar ddiwedd Rhyfel y Malfinas yn yr 80au. Fe wrthododd gydsynio ag awydd Margaret Thatcher i ddathlu concwest Prydain dros yr Ariannin. Yn hytrach, mynnodd Runcie ac offeiriaid y Gadeirlan fod y gweddïau yn yr oedfa yng Nghadeirlan Sant Paul yn Llundain yn ymbil dros y sawl ar y naill ochr a'r llall i'r rhyfel a ddioddefodd o ganlyniad i'r brwydro. 'For a shared sorrow can be a bridge to reconciliation,' meddai'r Archesgob yn ei bregeth.

### Gweddïo dros heddwch

Dyma pam mai cyfle i rannu'n tristwch a gweddïo am gynghanedd a chymod yw Sul y Cofio yn bennaf ac nid i ddathlu buddugoliaeth. Dyma pam mae'r pabi gwyn wedi dod yn symbol cryf dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl y *Peace Pledge Union*, sydd, ymhlith eraill, yn noddi'r pabi gwyn, mae'n arwydd ein bod am herio terfysg, rhyfel a militariaeth, yn ein cymell i wrthod gweld unrhyw ryfel a therfysg dan unrhyw amodau fel rhan normal a chyfiawn o fywyd y byd, ac yn arwydd o'n hymrwymiad i heddwch a chymod ac i geisio atebion di-drais i wrthdaro rhwng pobloedd a chenhedloedd yn ein byd cyfoes.

Ym mywyd yr Eglwys ac ym mywyd y byd, felly, a Dydd Guto Ffowc a Sul y Cofio yn dal yn ein meddyliau a'n calonnau, gweddïwn: 'Gwna ni yn offerynnau dy dangnefedd di, lle bo casineb gad i ni hau cariad.'

**Noel Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



Dydd Gweddi'r Byd
Yr Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir
**Cynhadledd**
yn festri Capel Heol Awst, Caerfyrddin
Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023
10.30yb tan 12yp

**Thema**
Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad
Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2024
gan ferched Palesteina

Cyfle i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2024

Croeso cynnes i bawb.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Saron Creunant

Ar nos Sul 5 Tachwedd, cynhaliwyd oedfa wahanol yn Saron Creunant. Dathlwyd diwrnod Guto Ffowc mewn steil! Cafwyd oedfa yn y capel lle roedd Rhys, gweinidog Saron wedi siarad ar Salm 141 gan atgoffa'r gynulleidfa am y ffordd y mae ein gweddïau fel credinwyr yn cyrraedd Duw ar ei orsedd … yn syth i'w galon.







# CYMANFA GANU HOPE-SILOH




'Gwaith hyfryd iawn a melys yw moliannu d'enw di, O Dduw,' oedd geiriau agoriadol oedfa nos ein cymanfa ganu eleni. Hyfryd iawn wir oedd bod yn bresennol yn oedfa'r bore a'r hwyr o dan arweiniad medrus Meinir Richards, Llanddarog. Yn y bore gyda chymorth plant ysgolion Bryniago a'r Hendy, roedd dros hanner cant o blant yn canu emynau cyfoes yn frwdfrydig i gyfeiliant bywiog y band – Geraint Williams ar y piano gyda chymorth Luned Mair a Luned Manon ar yr allweddellau. Plant ein hysgol Sul fu wrthi'n cyflwyno'r rhannau arweiniol a'r emynau, gyda Jennifer yn llywyddu. Roedd yr eitemau gan y ddwy ysgol yn gyfraniadau arbennig i'r gymanfa. Diolch yn fawr iddynt.

Yn yr hwyr, Marie Lynne oedd yn llywyddu, a Gareth Williams yn darllen a gweddïo. Geraint Williams oedd yr organydd a chafwyd eitemau swynol gan Gôr Lleisiau Lliw dan arweiniad Berian Lewis a Luned Manon yn cyfeilio.

Diolch yn fawr i bawb a fu'n rhan o'r paratoadau ac i bawb a ddaeth i ganu a mwynhau cyd-foliannu mewn oedfaon o fawl.

**Jennifer Clarke**




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*